

% o'r holl weithgarwch yn y chwarter hwn sy'n berthnasol i'r sector llaeth



Y Rhaglen Fentora




Cliciwch yma i agor y Cyfeiriadur Mentoriaid.

Rhwydwaith Arddangos

Canolbwyntio ar draed: Lleihau cloffni mewn buches odro robotig – safle arddangos Graig Olway

Yn anffodus, cafodd fferm Graig Olway ei heffeithio unwaith eto gan TB, a cholodd 23 o wartheg – llawer ohonynt yn iach, ac felly'n effeithio ar y ganran cloffni cyffredinol. Dechreuodd y flwyddyn gyda chanran cloffni uchel (28%) ym mis Ionawr. Credwn hefyd fod y cynnydd wedi'i effeithio gan gynydd mewn achosion o ddermatitis digidol (DD) o ganlyniad i olchi traed yn llai aml oherwydd y pwysau TB ar y buchod, yn ogystal â golchi traed yn llai aml dros gyfnod y Nadolig a phroffion TB. Fodd bynnag, bythefnos yn ddiweddarach, gostyngodd y ganran i 11%. Mae Graig Olway wedi buddsoddi mewn ysgraffell awtomatig Lely ar gyfer y sied heffrod, a ddylai helpu i leihau achosion o DD a chadw'r sied yn ianach.

Er bod lefelau cloffni cyffredinol wedi cynyddu ychydig, roeddem yn dal yn ôl ar y trywydd iawn o ran cyfran y fuches oedd gyda thraed iach. Mae'r rhai o'r achosion ailadroddus yn dod gan wartheg â gwadnau traed tenau, ac eraill a oedd gyda chleisiau yn ystod ymweliadau trimio blaenorol, sydd yn awr yn dod trwodd eto. Dyma'r gwartheg sy'n cael eu heintio'n aml.



Ffigwr 1. Dynamig cloffni yn y fuches ar fferm Graig Olway.

Ar ddechrau mis Ebrill, cawsom ein sgôr isaf hyd yma yn Graig Olway (17%). Mae cael gwared ar ychydig o'r cloffni cronig wedi gwneud gwahaniaeth mawr o ran y canran cyffredinol, ond mae'r gyfradd cloffni newydd yn parhau i fod yn isel, sy'n argoeli'n dda ar gyfer sgoriau'r dyfodol hefyd. Mae cyfran y fuches sy'n aros yn gloff rhwng cyfnodau sgorio (ardal du uchod) yn cynyddu o hyd, sy'n rhagorol, ac rydym yn gweld cyfraddau adfer da o'r achosion cloffni newydd hynny sydd wedi cael eu trin.

Mae'n bwysig cofio bod Graig Olway yn llym iawn o ran y broses sgorio symudedd, gan fod Sarah yn filfeddyg ceffylau ac yn gallu adnabod cloffni yn ei gyfnod cynnar. Hyd yn oed gyda phroses sgorio llym, rydym wedi gweld gwelliannau rhagorol o ran lefelau cloffni ers dechrau'r prosiect.

Cyberthynas rhwng mwydod ac iechyd y pridd, yn ogystal â gwerthuso BOKASHI (eplesu deunydd organig) – Fferm Llwynmendy

Mae iechyd y pridd yn ganolog i ffermio cynaliadwy. Mae ymchwil wedi dangos y gall pridd mwydod ffres ddal cymaint â phum gwaith yn fwy o nitrogen hygyrch, saith gwaith yn fwy o ffosfforws hygyrch ac 11 gwaith yn fwy o botash hygyrch na'r uwchbridd o'u cwmpas. O dan amgylchiadau delfrydol, mae poblogaeth iach o fwydod yn gallu prosesu tua 12 tunnell o bridd a deunydd organig mewn blwyddyn. Maent yn chwarae rhan hanfodol wrth gymysgu a chydgasglu gwastraff dail sydd ar yr arwyneb, yn ogystal â gwella strwythur y pridd a dadelfeniad microbaidd y deunydd organig.

Mae eu gweithgaredd yn arwain at:

- Wella faint o faeth sydd ar gael
- Gwella strwythur y pridd
- Gwella draeniad
- Gwella cynhyrchedd

Ar gyfer safle ffocws Llwynmendy, rydym yng nghymysgu cynnar prosiect a fydd yn asesu iechyd pridd yr holl gaeau pori ar y fferm trwy ddefnyddio Matrics Iechyd Pridd (a ddangosir isod):

Cerdyn Sgorio Pridd			
Fferm			
Defnydd Tir			
Maes			
Math o bridd	Tywodlyd	Coarse Loamy	Gain Loamy
	Silti Bras	Fine Silty	Cleio
Dyddiad			
Lleithder y Pridd	Sych	Ychydig yn llaith	llaith
	Yn llaith iawn	Gwlyb	
Tywydd	Sych	Gwlyb	
	Oer	Cynnes	
Dangosyddion	Sgôr	Pwysiad	Safle
Gwead	0	3	0
Strwythur	0	3	0
Mandyllledd	0	3	0
Mottles	0	2	0
Lliw	0	2	0
Mwydod	0	3	0
Arogl	0	2	0
Dyfnedr gwreiddiau pot	0	3	0
Cloddio arwyneb	0	3	0
Lleddfu Wyneb	0	1	0
		Cyfanswm	0
Gwael	<20		
Cymedrol	20-35		
Da	>50		
Uchafswm	20		

Ffigwr 2. Sgorio Pridd.

Ail ran y prosiect fydd eplesu deunydd organig. Gelwir y broses yn Bokashi (term Japaneidd am 'ddeunydd organig wedi'i eplesu'), ac mae'n broses debyg i silweirio cnydau porthiant. Mae compostio traddodiadol yn broses aerobig sy'n cynhyrchu gwres, sy'n golygu bod egni a maetholion gwerthfawr yn cael eu colli. Ochr yn ochr â hyn, mae compostio hefyd yn allyrru swm sylweddol o garbon. Mae compostio yn colli 62% o'i gyfanswm mäs i anweddolrwydd, a 58% o'i ddeunydd organig – gyda 50% ohono yn garbon. Felly, byddai 10t o ddeunydd organig yn colli 3t o garbon. Mewn cymhariaeth, dim ond 3% o garbon sy'n cael ei golli yn ystod y broses bokashi.

Nod cyffredinol y prosiect yn Llwynmendy fydd pennu iechyd y pridd yng nghyd-destun niferoedd llyngyr a deunydd organig yn y pridd. Mae'r amcanion allweddol a nodir fel a ganlyn:

- Darganfod iechyd pridd cyffredinol pob cae
- Canfod a oes unrhyw gyberthynas rhwng niferoedd llyngyr, twf glaswellt a'r defnydd o nitrogen
- Darganfod ffyrdd o wella niferoedd llyngyr
- Gwerthuso manteision Bokashi

Safle arddangos Nantglas: Gwella ffrwythlondeb mewn buches sy'n lloea mewn dau flocc

Mae chwarter cyntaf y flwyddyn yn gyfnod arbennig o brysur i'r ffermwr lwan. Ef yw'r unig berson ar y fferm i reoli lloea yn y gwanwyn a'r gwaith sganio ar gyfer y gwartheg sy'n lloea yn yr hydref. Bu'r gwaith sganio'n llwyddiannus eleni, gyda dim ond dwy yn wag allan o'r 105 oedd wedi'u sganio (98% yn gyflo). Yn anffodus, nid oedd yr heffrod mor llwyddiannus; allan o'r 22 a sganiwyd, roedd pedwar yn wag. Mae lwan wedi nodi perfformiad y tarw y mae'n ei ddefnyddio i'w baru â'r heffrod fel rheswm posib, a bydd yn prynu un arall cyn y cyfnod cyflwyno nesaf.

Pan gafodd y gwartheg sy'n lloea yn y gwanwyn eu sganio yn yr hydref, cafodd cyfanswm o 106 o'r fuches eu sganio gydag wyth ohonynt yn wag, a dim ond un fuwch yn ei llaethiad cyntaf yn wag. Roedd hyn yn dangos bod y rheolaeth well ar heffrod yn profi ei werth. Ar 16 Mawrth, roedd 63 o wartheg (60%) wedi lloea mewn pythefnos. Roedd hyn yn dangos bod y fferm ar y trywydd iawn i gyrraedd targed y prosiect o 90% wedi'u lloea yn ystod chwe wythnos gyntaf y cyfnod lloea, o gymharu â'r canran o 70% cyn i lwan ddechrau'r prosiect gyda Cyswllt Ffermio. Roedd yna bedwar achos o dwymyn llaeth ar y pryd, sydd ym marn lwan o ganlyniad i or-gyflyru gwartheg. Penderfynodd adael i'r buchod bori yn yr awyr agored yn ystod y dydd, a dod â nhw i mewn yn ystod y nos, a helpodd hynny i leihau achosion o dwymyn llaeth.

Yn anffodus, mae'r gwartheg yn dechrau dangos arwyddion o pica eto: bwyta rwbel. Mae Nigel wedi cymryd samplau glaswellt ffres a samplau pridd i ddeall pa fwynau sydd ar gael yn y glaswellt, ac a oes diffygion y gellir eu cysylltu ag awydd y gwartheg i fwyta rwbel a datblygu twymyn llaeth. Gyda strwythur pridd trwm yn Nantglas, mae dal angen gwaith i ddeall a yw mwynhau yn cael eu cloi mwy yn y pridd. Mae Nigel Howells yn awyddus i fynd i'r afael â'r mater yn Nantglas a ffermydd eraill sydd wedi'u heffeithio gan pica oherwydd diffyg ymchwil a gwybodaeth. Gellir gweld mwy o fanylion am faterion pica'r llynedd yn Nantglas, a chanlyniadau o'r samplau yma.

Grwpiau Trafod



37 CYFARFOD TRAFOD LLAETH

wedi'u cynnal gyda



316 O FNYCHWYR

Astudiaeth achos

Ymunodd Katie Harrower o Fenton Vets â grŵp trafod o Sir Benfro i ganolbwyntio ar ffrwythlondeb a'r elfennau amrywiol sy'n gysylltiedig â'r pwnc hwn.

Canolbwyntiodd Katie yn bennaf ar y cyfnod trosi, sef tair wythnos cyn lloea a thair wythnos ar ôl y lloea. Roedd y fferm letyol eisoes wedi cael problemau gydag achosion o dwymyn llaeth ac wedi penderfynu cyflwyno naddion magnesiwm i'r cafnau dŵr eleni, sydd wedi dangos gostyngiad yn nifer yr achosion. Newid arall sydd wedi'i roi ar waith ar y fferm yw bod y buchod yn cael 2kg o gêc (yn arbennig ar gyfer y cyfnod cyn lloea) rhyw 10-12 cyn lloea. Mae hyn wedi rhoi mwy o egni i'r buchod yn ystod ac ar ôl y cyfnod lloea, a nododd y ffermwr fod y buchod yn llawer hapusach, a'u bod yn dychwelyd i'w hymddygiad normal yn fuan ar ôl lloea.

Nododd Katie fod buchod yn fwyaf agored i glefyd yn ystod y tair wythnos gyntaf ar ôl lloea; mewn gwirionedd, mae 85% o'r holl faterion yn codi yn y cyfnod hwn, ac yn achosi problemau wrth gael buchod yn ôl yn gyflo.

Rhwng lloea a'r cyfnod cyflwyno, mae'n hanfodol i gadw lefelau egni yn uchel. Mae angen cadw cymeriant deunydd sych (DMI) yn uchel er mwyn eu cadw yn yr arferiad o gael rwmn llawn, oherwydd yn ystod beichiogrwydd hwyr, mae'r llo yn cymryd lle'r rwmn, felly bydd angen iddo ymestyn eto i sicrhau'r cymeriant gorau posib.

Roedd un aelod wedi gweld fferm yn cyflwyno dŵr cynnes mewn cafnau, ac wedi cynhyrchu 500 litr yn fwy o laeth yn y broses. Nid oedd gan Katie unrhyw broblem gyda'r cysyniad hwn os oeddent am roi cynnig arni.

Pethau sy'n gallu achosi problemau:

- Lloea gwael
- Diet anghywir
- Cloffni
- Straen wrth symud grwpiau
- Rheolaeth wael ar fuchod sych – mae gofod porthi digonol yn allweddol (75-90cm)
- Argaeledd porthiant

Mae cyfnod trosi drwg yn gallu arwain at:

- Beidio â bwrw'r brych
- Cleisio/anghysur
- Abomaswm wedi'i ddadleoli

Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Erthyglau technegol a gynhyrchwyd gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth:



CRYPTOSPORIDIWM A DA BYW FEL PERYGLON MILHEINTIOL



DULLIAU O GANFOD BUWCH GYFLO MEWN GWARTHEG LLAETH



CLOFFNI A DYSGU: CYFNEWID GWYBODAETH YM MAES LLES ANIFEILIAID



PWYSIGRWYDD MAETH LLOI CYN DIDDYFNU



EFFAITH Y SYSTEM GYNHYRCHU AR BROFFILIAU ASID BRASTEROG OMEGA-3 AC OMEGA-6 MEWN LLAETH

Gweminarau



CYNHALIWYD 4 GWEMINAR AR THEMA LLAETH

gyda



101 O WYLWYR

Mae enghreifftiau o'r gweminarau a gynhaliwyd yn cynnwys:

Sut gall ffermydd llaeth yng Nghymru elwa o safle treulio anaerobig (AD) ar raddfa fach?



Hau glaswellt o dan gnwd india corn i gyflawni buddion amgylcheddol ac economaidd



Y flwyddyn ar gyfer rheoli pori a maetholion yn llwyddiannus (llaeth): trafodaeth panel



EIP Cymru



Rheoli defaid godro i sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer cynhyrchu caws

Roedd y grŵp y tu ôl i'r prosiect eisiau cael gwell dealltwriaeth o effaith yr amrywiadau canlynol ar facterieoleg a chyfansoddiad llaeth dafad:

- Cyfnod llaetha
- Brîd, gyda ffocws ar famogiaid Friesland pur, Lley'n pur a mamogiaid croes Friesland a Lley'n.
- Ychwanegu Seleniwm at ddietau y mamogiaid.

Canlyniadau

- Eglura Alan Jones, sy'n ffermio yn Chwillog ger Pwllheli: "Trwy'r prosiect hwn, rydym wedi dysgu bod mamogiaid Lley'n yn perfformio'n dda o ran solidau llaeth, hyd y cyfnod llaetha, ac yn cynnig yr opsiwn o gadw oen sugno am gyfnod byr, os oes angen, i reoli cyflenwad. Yn ôl y disgwyl, nid yw mamog Lley'n yn cynhyrchu'r un lefel o gynnyrch y bydd mamog Friesland yn ei wneud, ac am bob dwy famog Friesland, bydd angen o leiaf tair o famogiaid Lley'n arnaf i roi'r un lefel o gynnyrch i mi."
- Roedd mamogiaid gyda chyfrif celloedd somatig yn cynhyrchu llai o laeth ym mlwyddyn 1, ac yn fwy diddorol, yn cynhyrchu cyfanswm is o solidau.
- "Gydag arweiniad gan Dr Yoav Alony-Gilboa o gwmni Friars Moor Vets yn Dorset, yr arbenigwr a oedd yn rhan â'r prosiect, rydym wedi gweithredu protocolau newydd i ddod â'n sgôr CCS i lawr i wella perfformiad ein diadell", eglurodd Alan. "Roedd hyn yn cynnwys camau eithafol fel tynnu'r mamogiaid a oedd â sgôr uchel o'r ddiadell odro, a gwneud addasiadau mwy gweithredol megis dulliau gwell ar gyfer sychu tethi a gwella'r wybodaeth am sut i fonitro a chynnal cadair/pwrs da."
- O'i gymharu â'r grŵp rheoli o famogiaid, ni chanfu'r grŵp unrhyw ddata arwyddocaol i awgrymu y gallai ychwanegu seleniwm effeithio ar gynnyrch neu ansawdd llaeth.

Digwyddiadau ymwybyddiaeth strategol

12 Digwyddiad wedi'u cynnal, gyda 255 o fynychwyr

Roedd y pynciau allweddol yn cynnwys:

Sut y gallwch wneud enillion economaidd trwy leihau cyfrif celloedd a lefelau bactoscan?

Ymunodd y milfeddyg/technologydd godro annibynnol Tom Greenham a Neil Blackburn o Kite â Cyswllt Ffermio am gyfarfod i drafod syniadau ynghylch lleihau lefelau bactoscan a chyfrif celloedd/mastitis. Cyflwynwyd a thrafodwyd yr ymchwil a'r datblygiadau diweddaraf mewn protocolau a thechnolegau godro i ffermwyr eu gwella, a rhannwyd syniadau sydd wedi gweithio ar ffermydd hefyd.

Yn dilyn y cyfarfod, cafodd y ffermwyr y cyfle i gael ymweliad 1:1 wedi'i ariannu'n llawn gan Tom Greenham i edrych ar faterion a syniadau penodol ar ffermydd yr aelodau, gan gynnwys adolygu'r broses godro, asesu effeithlonrwydd arferion glanhau peiriannau, datrys problemau cyfrif celloedd/mastitis, gan gynnwys edrych ar opsiynau o ran siediau a deunydd gorwedd.

Godro pob tamaid

Darparodd y cyfarfod hwn drosolwg o ganlyniadau'r prosiect 'Godro pob tamaid'. Roedd y canfyddiadau hyn yn cynnwys enillion cynhyrchu ac ariannol i ffermwyr a gymerodd ran yn y prosiect.

Cafodd yr holl unigolion a fynychodd gyfle hefyd i ofyn cwestiynau i'r arbenigwyr, sef Tom Greenham, Advanced Milking a Neil Blackburn, Kite Consulting.

Rhoddyd trosolwg hefyd o'r camau nesaf ar gyfer y prosiect wrth symud ymlaen.

Cymorthfeydd

27 O GYMORTHFEYDD WEDI'U CYNNAL

Roedd y pynciau allweddol yn cynnwys:

1 Cyfrifyddiaeth	4 Cynllunio	1 Busnes
7 Marchnata ac Arallgyfeirio	3 Cyfrifo ôl troed carbon	5 Cyfreithiol
1 TG	1 Rheoli Staff	

Roedd busnes eisiau cymhorthfa marchnata ac arallgyfeirio i edrych ar wneud caws gyda'r llaeth y maent yn ei gynhyrchu ar eu fferm. Hwn fyddai'r cam cyntaf, ac yn dilyn hyn, byddent yn ystyried cael cymhorthfa busnes i'w helpu a'u harwain gyda'u cynllun busnes.

Cyfnewidfa Rheolaeth

Jamie McCoy

Bydd Jamie McCoy yn ymweld â'r Iseldiroedd ac Awstria. Mae Jamie yn benderfynol o wella proffidioldeb y busnes, wrth wella ei etifeddiaeth amgylcheddol a chymunedol, a bydd yn edrych i mewn i gadwyni cyflenwi byr yn y gwledydd hyn.

"Mae angen i ni ychwanegu gwerth at laeth, cig, llysiau a ffibr megis pren a gwlan a chyfluoedd yn ymwneud â thwristiaeth. Felly, fy nod yw dysgu mwy am gadwyni cyflenwi byr, sy'n gweithredu o giât y fferm, i gadw ar y blaen i'r gromlin Ewropeaidd a chwedd ag anghenion cyfnewidiol ffermwyr a defnyddwyr."

Bydd y ffermwr cenedlaeth gyntaf, Sophia Morgan-Swinhoe, yn ymweld ag Iwerddon i ddysgu sut i ddatblygu caws sy'n adlewyrchu'r fferm, ei hunaniaeth a'i lleoliad. Ei nod yw "datblygu, prosesu a marchnata caws Cymreig unigryw sydd wedi'i aeddfedu, sy'n arddangos iechyd y fuches a bioamrywiaeth fy fferm", meddai.

"Trwy ymweld â rhai o wneuthurwyr caws ffermdy mwyaf blaenllaw yn Iwerddon, byddaf yn dysgu sut y maent yn mynegi hunaniaeth eu ffermydd trwy eu cynnyrch."

Gweithdai Hyfforddiant Iechyd a Lles Anifeiliaid

(yn berthnasol i'r sector llaeth)



CYNHALIWYD

17 O WEITHDAI

gyda



190

O FYNICHWYR

Ymwrthedd i wrthfotigau



Magu lloi iach a sicrhau'r elw mwyaf



Lleihau cloffni mewn gwartheg llaeth



Lleihau mastitis mewn gwartheg llaeth




Iechyd stoc ifanc



Hyfforddiant

Dn ystod y cyfnod hwn, darparwyd 121 achos o hyfforddiant wyneb i wyneb i'r sector llaeth.

Nifer yr unigolion a dderbyniodd hyfforddiant yn ôl categori:



Y cyrsiau mwyaf poblogaidd yn ôl categori yn y sector llaeth:

DIY Ffrwythloni Artiffisial (AI)	44
Defnyddio a Gwasgaru Slyri'n Ddiogel	5
Gweithio'n ddiogel mewn Amaethyddiaeth/Garddwriaeth	2
Cymorth Cyntaf yn y Gweithle mewn Argyfwng	2
Cynllunio a datblygu busnes	2

E-ddysgu

Rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn:

IECHYD A DIOGELWCH – GWEITHIO'N DDIOGEL Â DA BYW



RHYWOGAETHAU GLASWELTIROEDD



GWELLA IECHYD PRIDD



THERAPI DETHOL I FUCHOD SYCH (SDCT)



Cliciwch yma i fynd i'r wefan.